# Papur

## Elim, Heol Awst a’r Priordy

## Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

**MAWR DY FFYDDLONDEB,
FY NUW, YN DY NEFOEDD,
TRIW DY ADDEWID BOB AMSER I MI;
CADARN DY AIR, DY DRUGAREDD NI FETHA,
DDOE, HEDDIW’R UN, A THRAGWYDDOL WYT TI.**

**Thomas O Chisholm (1866-1960)
cyf. Dafydd M Job**

**Rhifyn 16**

**PAPUR IONAWR 2026**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Y Chwythwr Dail

***BLWYDDYN NEWYDD DDA*** i chi i gyd!

Rwy wedi cael tegan newydd yn anrheg Nadolig (diolch i garedigrwydd y teulu), sef chwythwr dail. Mae'r peiriant yn rhoi rhyw awdurdod rhyfedd i mi wrth i mi ymaflyd â'r tomenni o ddail sy'n chwythu dros y ffens i'n gardd ni o goeden Sycamorwydden ein cymdogion! Ac fel petai'r dail ddim yn ddigon, daw byddin o 'helicopters' yn eu cannoedd gan gario hadau'r Sycamorwydden i lanio yn ein gardd gan gymryd dros ein lawnt a'n patio! Diolch am y chwythwr dail newydd. I'r gad felly!



Gyda'm brwdfrydedd afreolus arferol, dyma danio'r chwythwr a'i anelu at y dail. Yn anffodus, bu imi ddal y peiriant ar yr ongl anghywir a bu'r dail yn hedfan yn afreolus fel corwynt o'm hamgylch. Roeddwn yn dal i ddod o hyd iddynt oriau yn ddiweddarach yn cuddio yn fy sgarff a thu mewn i *hood* fy *hoodie*!

Mae'n dda gen i ddweud fy mod wedi dysgu fy ngwers ac fy mod bellach yn ei ddal ar yr ongl gywir er mwyn chwythu'r dail i'r un cyfeiriad, eu corlannu a'u codi.

Onid yw bywyd o bryd i'w gilydd yn teimlo fel pe bai popeth yn chwythu i bobman! Galwadau gwaith, cyfrifoldebau teuluol, tacsi i'r plant, gwaith tŷ, pwyllgorau, negeseuon ebost, negeseuon Whatsapp a thestun, llythyron, ffôn... a gellir yn hawdd deimlo ein bod yn colli trefn a rheolaeth ar y cwbl.

***WRTH*** wynebu blwyddyn newydd sbon yn ein hanes, camwn i mewn i'r flwyddyn yng nghwmni Duw – yr un sy'n abl i'n helpu i gael trefn ar fywyd a chyfeiriad i'n bywyd. Sut? Drwy ymddiried ynddo, a gadael iddo fugeilio'n calonnau a'n meddyliau a thawelu'n pryderon.

**GWEDDÏWN**

Dad nefol, mae'n flwyddyn newydd.
Diolchwn i Ti am rodd bywyd ac am ein harwain drwy'r flwyddyn ddiwethaf.
Gosodwn y dyddiau sydd o'n blaen yn dy ddwylo cariadus.
Rho in ni ddoethineb i wneud dewisiadau da,
nerth i wynebu heriau, a dewrder i dyfu'n bobl well.
Llanwa ein calonnau â thangnefedd, ein cartrefi â chariad, a'n gwaith â phwrpas.
Cynorthwya ni i ollwng gafael ar boenau a methiannau'r gorffennol,
a cherdded ymlaen gyda ffydd, gobaith, a diolchgarwch.
Boed i'r flwyddyn hon fod yn un heddychlon.
Bendithia ein cynlluniau,
cyfarwydda ein llwybrau,
a chadw ni yn agos atat drwy'r flwyddyn
Yn enw Iesu Grist

**AMEN**



## DARLLENIADUR



| Mis Ionawr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Pregethwr 3; 3-13 |
| Wythnos 2 | Mathew 3: 13-17 |
| Wythnos 3 | Mathew 28:16-20 |
| Wythnos 4 | Actau 9: 1-19 |



**PANED A SGWRS**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**DYDD MERCHER, 4 CHWEFROR 2026**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**am 10.30**
**Croeso cynnes i bawb**



**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DENZIL a MARGARET DAVIES**

**HILARY KYNASTON**

**MARED IFAN**

**IEUAN ac ANGHARAD WYN**

*at gyhoeddi'r Papur y mis hwn*

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**

**CWRDD CHWARTER**

**Dydd Iau 12 Mawrth 2026**

**Capel y Graig, Tre-lech SA33 6RU**

**Y Gynhadledd am 10.30 / Cyfarfod y Prynhawn am 1.30**



**Catrin Heledd Jones…**



**Oedfa PIP dan Olau Cannwyll yn y Priordy**
**Nos Sul 7 Rhagfyr 2025**

**Roedd yr awyrgylch yn y Capel yn hyfryd wrth i'r gynulleidfa ymgynnull yng ngolau cannwyll yng nghwmni ein pobl ifanc. Croesawyd pawb i'r Oedfa gan Beti-Wyn a chanwyd y Garol "Tua Bethlehem Dref" (Rhif 468) i gyfeiliant band pres newydd a hwyliog y Priordy sef Rhodri, Trystan a Iestyn, gyda Heather wrth y piano. Gwnaed y cyhoeddiadau cyn cyd-ganu "Awn i Fethlehem" (rhif 436). Wedi hynny roedd y cyfan yn nwylo'r bobl ifanc.**

**"Sêr" oedd thema'r gwasanaeth. Daeth Olwen i'r pulpud i ddarllen cerdd Tudur Dylan Jones "Seren", sy'n agor gyda'r pennill:**

**Mae'n hwyr y dydd dan yr awyr ddu,**
**Ac mae rhywrai ar ddi-hun**
**Yn chwilio'r nos am seren fach,**
**Am y golau lleiaf un.**

**Yna daeth Ethan a Iestyn i sôn fel mae sêr wedi denu diddordeb erioed. Yng nghanol anialwch Atacama yn Chile y lleolir telesgôp sy'n arbennig o'r enw ALMA sy'n darganfod un alaeth newydd bob tair munud sy'n dangos pa mor rhyfeddol yw'r greadigaeth.**

**Tro Trystan ag Osian oedd hi wedyn i sôn ein bod ninnau sy'n byw yng nghefn gwlad yn ffodus i weld y sêr heb lygredd golau sy'n amharu ar hyn mewn trefi mawr. Ydyn ni'n bwyta MARS neu MILKY WAY neu'n darllen horosgôp? Dyna ddylanwad y sêr unwaith eto. Yn wir mae nifer o gyfeiriadau at y sêr yn y Beibl hyd yn oed mor bell yn ôl â Llyfr Amos 760 o flynyddoedd CC.**

**Yng nghwmni Noa a Gwilym clywsom enwau nifer o sêr enwog, sef Seren y Gogledd "Polaris", Y "Big Dipper" ac "Orion" ac ati. I ni yr hanes mwyaf enwog yn y Beibl yw ymweliad y Tri Gŵr Doeth wrth iddyn nhw ddilyn y seren arbennig a chafwyd darlleniad yn disgrifio'r ymweliad gan Tomos cyn i ni gyd-ganu "O ddinas fechan Bethlehem" (rhif 456).**

**Tro Lliwen a Gwern oedd hi nesaf ond yn anffodus roeddynt yn dost. Fe gafwyd dwy ifanc eu hysbryd yn eu lle, sef Beti-Wyn a Jayne. Yn eu cwmni clywsom fod pum pwynt ar seren, sy'n symbolau o aer, tân, dŵr, daear ac ysbryd.**

**Wrth i seiniau hyfryd y gân "Un Seren"- Delwyn Siôn atseinio yn y Capel dosbarthwyd sêr bach i bob aelod gan Elliw a Noa. Gwnaeth Elliw a Gwenan ein harwain mewn gweddi a phob un yn cydio yn y seren fach.**






## APÊL NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

**Bu ymateb rhagorol i Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eleni eto gan aelodau eglwysi'r Ofalaeth.**




**Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth**

## Y Tair Wraig Ddoeth

## Oedfa Nadolig Elim - 14 Rhagyfr 2025

**Daeth cynulliedfa niferus ynghyd i Elim prynhawn Sul, 14 Rhagfyr i'n Hoedfa Nadolig. Roedd plant yr Ysgol Sul dan arweiniad Miriam a'i thîm wedi bod yn brysur yn paratoi ac ni siomwyd y gynulleidfa! Yn dilyn cynnau tair cannwyll ar dorch yr Adfent, cafwyd cymorth y mamau gyda'r rhannau arweiniol. Darllenwyd hanes geni Iesu gan Natalie Evans ac arweiniwyd y gynulliedfa mewn gweddi gan Amy Evans. Cyhoeddwyd y carolau gan Mirain Walters, Elin Walters a Siân Bryan. Roedd y cyhoeddiadau yng ngofal Bet Jones a John Evans oedd yr organydd. Mirain Walters oedd yn cyfeilio i'r plant ar y piano. Casglwyd gan Celt, Isaac, Trystan ac Aneurin.**

**Cawson ein cyflwyno gan blant yr Ysgol Sul i'r 'Tair Wraig Ddoeth' trendi iawn sef Luned, Enlli a Lara, a chlywyd fod y tair yn ffans mawr o Taylor Swift! Cawson fwynhau clip fideo ohonynt yn teithio yn y car i Fethlehem trwy ddilyn y Sat Nav. Codwyd llaw ar Beti-Wyn ar y ffordd, buont yn sownd y tu ôl i dractor Gareth Bwlch a llond cab o fugeiliaid, a bu da Penlan ychydig bach o rwystr iddynt! Ond wedi cyrraedd Bethlehem, bu dathlu mawr gyda Mair a Joseff, y bugeiliaid, yr angylion a'r anifeiliaid i gyd. Swynwyd y gynulleidfa gan ganeuon Nadolig a chafodd y plant glap mawr yn arwydd o werthfawrogiad am oedfa i godi'r galon yn wir.**

**Yn eistedd ar y galeri trwy gydol yr oedfa, roedd Siôn Corn a oedd newydd ddychwelyd o Oedfa Nadolig Cana. Mewn dim, ymunodd Siôn Corn â ni yn y sêt fawr gan ddosbarthu anrhegion i blant yr Ysgol Sul. Diolch Siôn Corn am alw i'n gweld eleni eto.**

**Cyn gadael y capel cafwyd cyfle i anrhegu Carwen Davies sydd wedi ymddeol o'i gwaith yn paratoi rota'r Bwrdd Cymun – swydd y mae wedi ymgymryd ag ef yn gydwybodol dros nifer helaeth o flynyddoedd. Dangoswyd ein gwerthfawrogiad hefyd i Mary Williams sydd wedi gwneud cymwynan fawr â ni fel eglwys drwy gofnodi hanes pob bedd yn y fynwent.**

**Er bod yr oedfa ar ben, nid felly'r dathlu, ac ymlwybrodd pawb i'r festri i fwynhau te parti godidog.**

**Dioch i blant Elim am ein tywys i Fethlehem eleni eto … ie, mae'r stori'n hen ond y cyflwyniad mor ffres ag erioed!**












**Elinor W Reynolds…**

# ‘Heno’ heddi



***FLYNYDDOEDD*** yn ôl, tasech chi wedi cael siwmper yn anrheg Nadolig, mi fyddech wedi ystyried hynny’n anrheg rybish ar y naw. Diolch am ddim byd, Anti Magi! Ond erbyn heddi, mae’r dywededig ddilledyn yn angenrheidiol, neu ... a ydych chi wedi dathlu Nadolig go iawn? Es i chwilio ar y we ac yn wir, dyma mae’n ei ddweud ar Wicipedia:

> ‘Siwmper gyda dyluniad Nadoligaidd neu afaeol yw siwmper Nadolig. Am flynyddoedd cafodd ei ystyried yn ddilledyn henffasiwn a gwirion, ac yn ystrydeb o anrheg Nadolig. Yn y 2010au daeth i fod yn eitem boblogaidd a ffasiynol, i raddau o ganlyniad i’w natur camp ac eironig.’

Wel, os yw e’n dweud hynny ar Wicipedia, yna mae’n RHAID ei fod yn wir. Camp neu beidio.

Felly ar ail ddydd Sul mis Rhagfyr, dyma ni’n dod ynghyd yn ein siwmperi Nadolig gorau i ddathlu Gŵyl y Geni yng nghwmni plantos ysgol Sul y Priordy. Bois! Fe nethoch chi ni’n prowd.

Fel rhywfath o *amuse bouche* i bawb cyn y *main event*, cafodd y parti bechgyn a’r parti merched owting, gyda’r bois yn canu ‘Sut Nadolig fydd eleni?’ a’r merched yn canu ‘Mater Christi’. Mi oedd gêm siwmperi’r bechgyn a’r merched yn gryf iawn eleni, ac wy’n credu mai Heledd ap Gwynfor enillodd gyda’i siwmper Nadolig â llun o’r ddau Frank yn dymuno ‘Nadolig Chyffin’ Hapus’ i ni. Llongyfarchiadau Heledd.

Yna, ymlaen â ni at y sioe Nadolig oedd yn dod eleni o stiwdio *Heno*. Yr un stori hyfryd ar ei newydd wedd, gyda thamed o dinsel arni.

Ymddangosodd Aneurin mewn siaced felfed smart, fel MC mewn DJ i’n croesawu. Yna daeth y pedwarawd pêr; Greta Fflur, Alys, Cadi a Beca i’n swyno gyda chân, ‘Ar noson dy eni di’. Yna draw â ni i soffa *Heno* ble roedd Greta Fflur a Beca’n ein disgwyl ni – ar lawr y stiwdio yn gwneud y gwaith cyfarwyddo, camera a sain roedd Nel, Myfi ac Alys. Oedd pawb yn barod i glywed beth oedd ar y rhaglen yn y rhifyn hwn? Roedd y rhaglen yn addo bod yn un arbennig gyda chyfweliad gyda thri fu ar daith anarferol a hefyd sgwrs y soffa gyda dau go arbennig cyn diwedd y rhaglen.

Ond yn gyntaf, cafwyd sgwrs fyw ar leoliad o’r caeau uwchben Bethlehem gyda’r

gohebydd Greta Marged oedd yng nghwmni'r bugeiliaid, a gafodd ofn, achos fe welon nhw rywbeth rhyfedd, golau yn yr awyr a chriw o angylion yn canu caneuon anhygoel.



Roedd y bugeiliaid; Osian, Deio, Hedd, Elijah, Bedw, Ilan, Meurig a Noa'n dal i grynu o flaen y meicroffon oren ar ôl gweld y fath ddrychiolaethau. Diolchodd Greta iddyn nhw a'n trosglwyddo ni 'nôl i glydwch y stiwdio. Yno, cawsom newid pwnc a throi at eitem ffasiwn gyda Meredydd Ffash, mewn gwisg hynod ffansi, oedd yn arddangos ategolion angylion i ni, o dinsel i adenydd. Dyma'r *must-haves* angenrheidiol i bob angel gwerth ei halen, medd Meredydd Ffash, sy'n gwbod beth yw beth. Roedd yr angylion yn cerdded y *catwalk* ac yn gweithio'u gwisgoedd grŵfi hyd yr eithaf, 'Mae'r wisg hon yn cosi, ond dyna'r pris er mwyn edrych mor ffabiwlys â hyn,' medd un, 'Rwy'n teimlo fel tywysoges,' medd un arall. Fe ganodd y criw nefol gân hyfryd, 'Nadolig Llawen i chi gyd', gan arwyddo'r gân hefyd. A jyst fel yna dyma'r angylion – Martha Nel, Erin, Mali, Nyfain, Gwenlli, Non ac Erin – yn 'sashay away' i'r nen megis sêr gwib ffasiynol.

Aethon ni wedyn yn fyw i'r anialwch gydag Aneurin am gyfweliad byw gyda'r doethion; Caspar, Melchior a Balthasar, neu Brynmor, Sianco a Brychan. Beth oedden nhw'n ei wneud mor bell o bobman, holodd Aneurin. Yr ateb oedd eu bod wedi dilyn seren lachar ers oesoedd a bod hynny'n arwydd fod brenin go arbennig wedi'i eni. Roedd y seren yn dechrau arafu ac felly roedd yn amlwg ei bod yn dod i derfyn ei thaith. Sut oedden nhw'n gwybod hynny, gofynnodd Aneurin. Yr ateb? 'Achos ein bod ni'n ddynion doeth wrth gwrs.' Ba-dwm, tish! Fe adroddon nhw hanes eu hanturiaethau, am ymweld â Herod byr ei dymer a nhwythau'n ofni cael *chuck out* ganddo. Gofynnodd Herod iddyn nhw ddychwelyd i ddweud wrtho ble roedd y babi er mwyn cael mynd i'w weld, ond doedden nhw ddim yn ei drystio, diolch byth, ac fe ddihangon nhw. Yna cyn gadael ar eu taith, fe ganon nhw'r gân, 'Tri gŵr doeth yn teithio'n ffri' a hynny'n llawn agwedd a doethineb.





'Nôl yn y stiwdio – amser am gwis yng nghwmni'r cwisfeistri Cadi ac Ifan. Dewiswyd Beti-Wyn i gystadlu yn y cwis 'Mwy neu Lai'. Roedd y cwestiynau'n anodd, ond fe gafodd BW nhw'n gywir bob un, gan ennill £1,000 er mwyn gallu mynd ar wyliau pan fyddai pawb arall yn y gwaith. Llongyfs a hwre i Beti-Wyn!

Canodd Greta gân hyfryd 'Mae 'na faban bach'. Yna ymunodd y ddau westai arbennig â'r cyflwynwyr yn y stiwdio, neu dri gwestai, tasech chi'n cyfri'r bwmp. Mair a Joseff

oedd y ddau, sef Cadi a Gwydion. Cawson nhw eu holi ar y soffa am eu profiadau cyn gadael, achos roedd y babi ar fin cyrraedd.

Cawsom ni egwyl ac amser am hysbysebion o'r pulpud. Ydych chi am gael gwersi siarad Eidaleg? Mae Emlyn Schiavone'n cynnig gwersi hanner pris. Cewch brynu sesiynau ffasiwn gan Heledd Ap. Ac mae campfa newydd wedi agor, sef campfa Delme Thomas – DT4. *Bougie*.

Erbyn hyn, fe glywson gan bawb ond mae'r cynhyrchydd yn sibrwd yng nghlust y cyflwynwyr ein bod ni ar fin cwrdd â'r gwestai pwysicaf un mewn stabal ym Methlehem. Yno ar ran y rhaglen roedd Greta Marged ac Aneurin gyda'u meicroffonau oren i holi'r cwestiynau yr oedd pawb eisiau eu gofyn. Beth ddaeth y bugeiliaid gyda nhw i'r babi? 'Dafad!' Wrth gwrs. A beth am y doethion? 'Aur! Thus! Myrr!' Siŵr iawn.



***DAETH*** y rhaglen i ben gyda chaneuon Nadoligaidd hyfryd gan y plant a'r cyfan yn cael eu harwyddo drwy iaith arwyddo. Uchafbwynt teilwng i raglen y flwyddyn. Clasur arall drosodd eleni eto. Diolch, blantos. Nadolig Llawen i chi i gyd.

## COFIO AMNEST

**Ar ddiwedd y gwasanaeth wrth i ni gymdeithasu uwchben gwin gaeaf a briwgacs yn y Festri – diolch i gymwynasgarwch ein gwragedd - daeth tasg ymarferol i'n rhan hefyd, sef ceisio helpu i ddod â gobaith i eraill drwy lofnodi cardiau yn enw Amnest Rhyngwladol. Carfan bwyso annibynnol byd-eang yw Amnest Rhyngwladol sy'n ymgyrchu dros ryddhad pob carcharor cydwybod (sef pobl sy'n cael eu carcharu neu'n cael eu camdrin oherwydd eu credoau gwleidyddol neu grefyddol) . Cofiwyd am nifer o'r carcharorion hyn wrth lofnodi'r cardiau unwaith eto eleni..**

## Cefnogi Ymgyrch Amnest Rhyngwladol 'Write for Rights'

**Diolch yn fawr iawn i aelodau Elim, Heol Awst a'r Priordy a lofnododd gardiau cyfarch i deulu Unecebo Mboteni ac i Sonia Dahmani fel rhan o'r ymgyrch uchod. Roedd 50 ohonynt wedi cyfarch rhieni Unecebo a phostiwyd 80 cerdyn iddynt a 43 wedi cyfarch Sonia a phostiwyd 61 cerdyn iddi hi. Roedd grŵp Amnest Caerfyrddin yn cyfarch saith o achosion a phostiwyd 218 o gardiau.**

**Iris Owen**

# NADOLIG Y PRIORDY








## PLYGAIN 2025



***CYNHALIWYD*** y Plygain eleni ar drydydd Sul yr Adfent yn Eglwys Crist. Fe'n croesawyd yno'n gynnes iawn gan y Parchedig Ddr Matthew Hill, Archddiacon Caerfyrddin.

Ar ôl i Bet Jones (E) gyflwyno'r gân draddodiadol sy'n agor gwasanaeth Plygain gyda'r geiriau *Ar fore Dydd Nadolig* cafwyd eitemau diddorol ac amrywiol gan Feibion y Priordy, Capel y Tabernacl, Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain, Capel Babell Zion Newydd, Eglwys Crist, Côr Tonic, Yr Ysgol Farddol, Capeli Elim a Heol Awst, Clwb Ffermwyr Ifainc, Merched y Priordy, Capel Penuel, Criw Llangynnwr a Chôr Seingar.

Canwyd tair carol gan y gynulleidfa i gyfeiliant Heather Williams wrth yr offeryn – Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio, Pan anwyd Crist ym Methlehem dref ac O deuwch, ffyddloniaid. Cyhoeddwyd y Fendith gan yr Archddiacon.


Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Ymchwil Canser Cymru. A braf oedd cael cwmni'r gyflwynwraig Mari Grug yn y gwasanaeth. Mae Mari yn un o saith llysgennad Ymchwil Canser Cymru ac yn falch o allu helpu codi proffil yr elusen bob amser.

Diolch i bawb a gymerodd ran- o'r to ifanc i'r rhai hŷn - ac am wneud hynny mor raenus ac ystyrlon. Diolch hefyd i Ferched y Wawr am y trefniadau.

Mae'n briodol wrth gloi i ni ddyfynnu'r cwpled sydd ar y rhaglen unwaith eto eleni – cwpled sy'n crynhoi dyhead pob un ohonom:

A dyma'r Nadolig i weithio fel un
i geisio am heddwch a byw yn gytûn.





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**Joan Thomas.**



## Oedfa Fore Sul, 21 Rhagfyr 2025

***HYFRYD*** oedd cael croesawu aelodau Elim a'r Priordy atom i Heol Awst i'r Oedfa Nadolig fore pedwerydd Sul yr Adfent. Llanwyd y festri, a chydag Olga yn cyfeilio canwyd yr Intrada, cyn i Beti-Wyn groesawu pawb, ac i Nia (HA) gynnau canhwyllau'r Adfent wrth i'r gynulleidfa ganu Carol y Canhwyllau. Wedi canu'r emyn 'Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod…'[rhif 477], gwnaed y cyhoeddiadau gan Nigel (HA), a'r casgliad. Canodd Parti Canu Elim a Heol Awst y garol a ganwyd ganddynt ym Mhlygain Merched y Wawr yn Eglwys Crist, 'Y pumed dydd ar hugain y ganwyd baban Mair…' ar y dôn Bryniau Casia [rhif 252].



Hanes stampiau Nadolig eleni oedd thema'r oedfa. Dechreuwyd yr arfer o gyfnewid cardiau Nadolig gan y Frenhines Fictoria ym 1843. Eleni cynhyrchodd y Swyddfa Bost bump stamp Nadolig newydd yn dangos golygfeydd o'r Geni. Darluniwyd y stampiau gan Paula Doherty, darlunydd llwyddiannus ac enwog o Loegr. Wedi hyfforddiant yn Ysgol Gelf Camberwell ac Ysgol Gelf Chelsea, defnyddia decstiliau fel marmor, enamel, marquetry a collage yn ei gwaith. Bu'r Swyddfa Bost hefyd yn cyd-weithio gyda'r Athro Ben Quash, Athro Cristnogaeth a'r Celfyddydau yng Ngholeg Breninhol Llundain; a'r Athro Andrew Davison, Athro mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Rhydychen.




Y ddelwedd ar y **stamp ail ddosbarth** yw Angel, negesydd Duw. Diddorol yw mai enw gwrywaidd sydd ar angylion Y Beibl. Adroddodd

Gethin (HA)yr hanes am yr angel yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd, cyn i Ffion (HA) adrodd hanes Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad, a Joseff a Mair yn gorfod teithio i Fethlehem, a'u troi i stabl gan nad oedd llety gwell ar gael.

Mair a Joseff sydd ar **stamp amlen fawr,** dau arwr tawel y ffydd, heb fawr wedi'i gofnodi am eu bywyd na'u geiriau, ond mae'u bywyd yn dangos ymddiriedaeth, dewrder, ac ufudd-dod pan nad oedd eu dyfodol yn aneglur. Er bod Mair mor ifanc a chyffredin, ymddiriedodd yn Nuw gan ddweud: *Bydded i mi yn ôl dy air di*. Yr un yw ymateb Joseff, er yn dawelach. Bu'n ufudd gan weithredu yn ôl gair Duw. Dangosodd y ddau nad pobl sydd eisoes wedi'u harfogi y mae Duw yn eu galw; Ef sy'n eu harfogi.

Ar ôl yr emyn 'A welaist ti'r ddau a ddaeth gyda'r hwyr…'[rhif 470], soniodd Beti-Wyn am y Bugeiliaid sydd ar y **stamp mawr dosbarth cyntaf.** a'i bris yn £3.15. Gareth(P) adroddodd yr hanes am y gwerinwyr cyffredin y daeth angel â'r newyddion iddynt hwy, a'u llorio yn llwyr. Wedi mynd at y crud, gwelsant Oen newydd anedig Duw yn y gwellt.

Y **stamp drutaf** eleni yw'r un sy'n £3.70, a llun y Doethion sydd arno. Carys (HA) adroddodd eu hanes yn dod o'r dwyrain i Jerwsalem i chwilio am y babi. Cynhyrfodd Herod ac wedi iddo ddarganfod mai ym Methlehem roedd y babi, anfonodd y doethion yno gyda gorchymyn i ddychwelyd ato i ddweud ble roedd Iesu. Ond yn dilyn rhybudd gan Dduw mewn breuddwyd aethant adref ar hyd ffordd arall. Eglurodd Beti-Wyn sut roedd y bobl ddysgedig a chyfoethog hyn yn chwilio am y gwirionedd sy'n rhoi ystyr a phwrpas i fywyd. Wedi cael eu bodloni o weld Iesu, dyma nhw'n plygu ac offrymu rhoddion teilwng o Frenin a fydd yn eu bugeilio a'u harwain hwy a phawb arall drwy'r byd. Plygu iddo sydd raid i ninnau hefyd.



***YN*** dilyn gweddi gan Amanda(E), canwyd emyn 'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef...'[rhif 292], gweinyddwyd y Cymun gan Beti-Wyn, cyn i bawb gyd-ganu 'Odlau tyner engyl...'[rhif 462], ac i Beti-Wyn gyhoeddi'r Fendith i gloi oedfa fendithiol, a chael cyfle i gymdeithasu a dymuno Nadolig Llawen i'n gilydd dros dished a mins pei. Diolch i bawb a gymerodd ran.

## DECHRAU ARDDERCHOG I'R DIWRNOD MAWR

Roedd hi'n hyfryd cael dod ynghyd fel Gofalaeth yn Heol Awst ar fore Dydd Nadolig am 9 o'r gloch i ddathlu Gŵyl y Geni. Roedd hi'n fore anarferol o braf er yn ddigon oer ond anghofiwyd am y tywydd yng nghlydwch y capel. Diolch i'r swyddogion am eu croeso. Da oedd gweld cymaint o deuluoedd yn bresennol a hefyd drawstoriad calonogol o wahanol oedrannau.



Cafwyd yr Alwad i Addoli a'r Weddi Agoriadol gan ein Gweinidog cyn i ni ganu Carol Canhwyllau'r Adfent yn gyflawn wrth i wahanol deuluoedd ddod ymlaen i gynnau pob un o'r pum cannwyll ar y dorch y tro hwn – Cannwyll 1: Teulu Llinos, Elfyn, Noa a Nel –, Cannwyll 2: Teulu Catrin, Rhydian, Greta a Martha Nel, Cannwyll 3: Teulu Carys, Gareth, Cadi Wyn, Hedd ac Ifan, Cannwyll 4: Teulu Heledd a Meredydd, Cannwyll 5: Teulu Ieuan, Angharad, Greta, Miriam a Noa.

Yna cymerwyd rhan gan rai o bobl ifanc Y Priordy, Miriam, Tomos, Anna a Marged a'u cyfraniadau yn cynnwys y gerdd Seren y Geni gan Mari Lisa, Darlleniadau o'r Beibl a Gweddi – y cyfan yn crynhoi rhyfeddod y diwrnod arbennig hwn yn effeithiol iawn.

Ar ôl canu'r garol Tua Bethlem Dref i gyfeiliant Olga Williams wrth yr organ cawsom ein rhyfeddu a'n swyno gan rai o'r anrhegion amrywiol a dderbyniodd ein plant gan Siôn Corn yn gynharach yn y bore - o Ffon Pogo i Fenyg Golgeidwad a Lego Harry Potter hyd at Wafflau Tre-groes! Ond roedd rhodd arall wedi cyrraedd Heol Awst y bore hwnnw hefyd, fel yr esboniodd Beti-Wyn, a'r rhodd honno'n dod oddi wrth Dduw i bob un ohonom, sef Iesu Grist, y rhodd fwyaf gwerthfawr yn y byd i gyd!



***WEDI*** canu'r garol olaf, O Deuwch ffyddloniaid a'r Fendith gan ein Gweinidog, roedd cyfle i ni gyfarch ein gilydd cyn mynd tua thref ar ôl dechrau mor ardderchog i'r diwrnod mawr.

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

## Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'P'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Pan gyll y call fe gyll --- |
| | |
| 2 | Pawb a chwennych --- |
| | |
| 3 | Pawb â'i fys yn y --- |
| | |
| 4 | Pawb at y peth y --- |
| | |
| 5 | Pell chwerthin o galon --- |
| | |
| 6 | Po callaf y dyn, anamlaf ei --- |
| | |
| 7 | Po fwyaf fo'r brys, mwyaf y |
| | |
| 8 | Po fwyaf fo'r llanw, mwyaf y --- |
| | |
| 9 | Prinder peth a rydd werth --- |
| | |
| 10 | Profiad yw mam --- |

Atebion ar Dudalen 40

# LLONGYFARCHIADAU ENLLI




**Enlli James, enillydd Tlws Y Priordy yn Noson Wobrwyo Ysgol Gyfun Bro Myrddin am yr ymdrech orau ym maes Addysg Grefyddol.**

**Capel Y Priordy**

**Cynhelir**

## CWRDD EGLWYS

**Fore Sul, 25 Ionawr 2026**

**wedi'r oedfa**

**i drafod Canlyniad yr Holiadur**
**a anfonwyd allan at yr aelodau**
**a'r ffordd ymlaen**

**Apeliwn am eich presenoldeb**

# Ifanc@gofalaeth




## Blwyddyn Newydd Dda!

**Nadolig**

**Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch am eich rhan yng Ngwasanaeth Nadolig Elim a'r Priordy. Roedd pawb ohonoch yn sbesial wir. Gobeithio cawsoch Nadolig da a bod Siôn Corn wedi bod yn garedig i chi!**

**Yr Ysgolion Sul**

**Fe fydd yr Ysgolion Sul yn cychwyn yn fuan a phawb yn edrych ymlaen at y tymor newydd.**

## I'r dyddiadur!



**Dathlu Gŵyl Dewi**

**Ysgolion Sul Cymraeg Caerfyrddin**

**Oedfa Bore Sul, 1 Mawrth**

**am 10.00 o'r gloch**

**yng Nghapel Y Priordy**

**Oedfa Gymun Undebol am 5.00 yr hwyr**

# CHWILOTAIR 2026

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | I | O | N | A | W | R | A | H | D | R | F | M | A |
| F | D | E | F | B | L | R | F | L | E | E | R | R | M |
| H | A | A | A | I | A | M | E | E | W | E | R | Y | A |
| Y | E | C | N | N | D | A | M | M | A | E | E | F | W |
| D | H | I | N | C | L | L | I | R | B | E | Y | G | R |
| R | A | E | E | H | I | H | A | Y | E | R | W | A | T |
| E | Y | S | F | W | D | O | B | B | T | N | T | H | H |
| F | B | F | F | E | E | F | F | Y | A | R | H | R | D |
| Y | R | R | R | F | M | W | A | W | S | T | L | D | I |
| R | H | W | O | R | T | A | E | R | E | I | F | R | A |
| T | R | W | G | O | H | R | S | Y | M | M | H | I | D |
| B | N | O | E | R | E | T | A | C | H | W | E | D | D |
| Y | C | W | Y | E | M | E | H | E | F | I | N | Y | E |
| N | I | H | M | A | A | I | B | Y | R | A | R | A | M |



**IONAWR**
**CHWEFROR**
**MAWRTH**
**EBRILL**
**MAI**
**MEHEFIN**
**GORFFENNAF**
**AWST**
**MEDI**
**HYDREF**
**TACHWEDD**
**RHAGFYR**

**GWEDDI**

Annwyl Dduw,
Diolch i Ti am y diwrnod hwn,
am fy nheulu, ffrindiau, a'm chwarae.
am fy mwyd a'm gorffwys,
Os gweli di'n dda,
helpa fi i wneud fy ngorau
yn ystod y flwyddyn newydd
Amen.



**Hwyl tan tro nesaf, Beti-Wyn**

**GWASANAETH NADOLIG CARTREF PRESWYL**

**PLAS-Y-DDERWEN**
**gyda**
**Beti-Wyn, Catrin Thomas (P) a Band Byddin yr Iachawdwriaeth**











## Capel Distawrwydd, Helsinki, Y Ffindir



**Mae Capel Kamppi wedi'i leoli ar ochr ddeheuol Sgwâr Narinkka yn ardal Kamppi yn Helsinki, Y Ffindir. Fe'i gelwir hefyd yn "Capel Distawrwydd" gan ei fod yn cael ei fwriadu fel lle i ymlacio a chael eiliad o dawelwch yn un o ardaloedd mwyaf prysur a bywiog y ddinas. Mae'n gapel Eciwmenaidd ac yn cael ei gynnal ar sail partneriaeth, gan blwyfi Helsinki a'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn Ninas Helsinki. Mae undebau plwyfi Espoo a Vantaa hefyd wedi bod yn rhan o lunio gweithgareddau'r capel.**


**Does dim gwasanaethau eglwys go iawn na digwyddiadau sanctaidd eraill, fel bedyddio neu seremonïau priodas, yn cael eu trefnu yn y capel ond mae ar agor bob dydd o'r bore hyd y nos ar gyfer eiliadau tawel a chyfarfodydd. Cynhelir eiliadau mynych o weddi yn y Capel.**

**Mae'r Capel yn enghraifft o bensaernïaeth coed arloesol.**

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

## EMYN ADDAS AR GYFER DECHRAU BLWYDDYN NEWYDD

**Emyn Saesneg poblogaidd yw 'Great is Thy Faithfulness' gan Thomas O Chisholm (1866-1960), gweinidog Methodistaidd o Kentucky yn yr Unol Daleithiau. Ysgrifennodd y gerdd yn 1923 am ffyddlondeb Duw drwy gydol ei oes.**




**Cyfansoddwyd y gerddoriaeth gan William Marion Runyan (1870-1957), yntau hefyd o'r Unol Daleithiau a ffrind i Chisholm.**



**Daeth yr emyn yn boblogaidd yn ddiweddarach drwy Sefydliad Beibl Moody ac ymgyrchoedd Billy Graham.**

**Mae'r ymadrodd "Great is thy Faithfulness" yn dod o'r Beibl, yn benodol Llyfr Galarnad (3.23) yn yr Hen Destament– 'Arglwydd, rwyt ti mor anhygoel o ffyddlon!' (b.net). Mae'n ddatganiad o sicrwydd di-newid Duw a'i bresenoldeb cyson yn ein bywydau. Mae'r ymadrodd "ffyddlondeb" yma'n cyfeirio at sefydlogrwydd Duw, ei ymrwymiad di-dor i'w addewidion, a'i gymeriad cyson. Mae hyn yn golygu bod Duw yn ddibynadwy ac yn un y gellir ymddiried ynddo, beth bynnag fo'n hamgylchiadau.**

**Caiff yr emyn ei ganu'n aml ar ddechrau blwyddyn newydd a hynny am nifer o resymau. Mae'n ein hatgoffa o ffyddlondeb a thosturi Duw ac yn gysur arbennig yn ystod y newid o un flwyddyn i'r llall., Mae neges yr emyn am obaith ac adnewyddiad yn cydfynd â themâu sy'n gysylltiedig â blwyddyn newydd fel dechreuadau a chyfleoedd newydd.**



**Troswyd yr emyn i'r Gymraeg gan Dafydd M Job. Yn wreiddiol o Aberystwyth, bu'n wenidog gyda'r Presbyteriaid cyn cael ei alw i fod yn weinidog cyntaf yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg ym Mangor ym 1985. Bu hefyd yn teithio yn rheolaidd i Ddwyrain Ewrop i gynorthwyo eglwysi yno. Mae wedi ymddeol o'i gyfrifoldeb fel gweinidog yr eglwys ym**

Mangor ond yn parhau i deithio i ddwyrain Ewrop, ac mae wedi derbyn cyfrifoldeb gyda mudiad *Living Leadership*, i gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr eglwysi yng Nghymru a dramor

Dyfynnwyd pennill cyntaf yr emyn ar y tudalen blaen a dyma'r testun yn llawn:

Mawr dy ffyddlondeb,
fy Nuw, yn dy nefoedd,
Triw dy addewid bob amser i mi;
Cadarn dy Air, dy drugaredd ni fetha,
Ddoe, heddiw'r un, a thragwyddol wyt ti.

Mawr dy ffyddlondeb di,
mawr dy ffyddlondeb di,
Newydd fendithion bob bore a ddaw;
Mawr dy ffyddlondeb i mi yn fy angen,
Pob peth sydd dda,
fe'i derbyniais o'th law.

Gaeaf a haf, amser hau a phryd medi,
Haul, lloer a sêr
ar eu llwybrau drwy'r nef,
Unant â'r cread bob dydd i fynegi –
'Mawr dy ffyddlondeb o hyd!' yw eu llef.

Pardwn am bechod,
tangnefedd i'r galon,
Bendith dy gwmni i'm harwain bob dydd;
Cryfder wyt heddiw, a gobaith yfory;
Bendithion lu ar fy nghyfer i sydd.

Mae poblogrwydd parhaol y emyn a'r effaith a gaiff ar wrandawyr yn ei wneud yn ddewis ardderchog ar gyfer dechrau blwyddyn newydd, gan gynnig cysur ac ysbrydoliaeth wrth i rywun gamu i'r flwyddyn sydd o'i flaen.

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Annell Dyfri (HA)**



**Gyda 2026 wedi cyrraedd, dyma geisio crynhoi fy ngobeithion am y deuddeg mis nesaf. Fy mhrif flaenoriaeth yw treulio cymaint o amser â phosib gyda theulu a ffrindiau.O ran fy ngwaith, rwyf wedi cychwyn swydd newydd yn ddiweddar fel gohebydd gyda'r BBC yn y De Orllewin a'm gobaith yw parhau i gael cyfleon i ddatblygu fy ngyrfa. Ond y mae yr un mor bwysig i fi fwynhau f'amser hamdden hefyd gan fanteisio ar bob cyfle posib i deithio a gweld mannau o ddiddordeb.**



**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Siwan Jones (P)**

**Fy nymuniad ar gyfer 2026 yw dod â mwy o hapusrwydd, iechyd a heddwch i bawb, ac i ni fyw gyda charedigrwydd a pharch tuag at ein gilydd**

**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Amy Evans (E)**



**Yng nghanol prysurdeb bywyd, fy mrif obaith am y flwyddyn 2026 yw i gymryd cam yn ôl o'r prysurdeb i wneud yn siŵr fy mod i'n treulio amser gyda fy nheulu bach. Dim ond un cyfle sydd gennym i weld y plant yn tyfu i fyny, felly mae'n bwysig fy mod yn gwneud y gorau o'r amser arbennig hwn. Wrth gwrs, mae adeiladu busnes llwyddiannus yn bwysig iawn. Mae gwneud yn siŵr bod y fferm yn fwy effeithlon yn flynyddol yn bwysig, ond hapusrwydd, creu atgofion a bod yn iach sy'n dod i'r brig.**

## TE PARTI'R PRIORDY



## CINIO NADOLIG CHWIORYDD ELIM



*EIN* cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Eiddwen Morgan (E), Ann Griffiths (P) a Rhyswen Michael (P). Cofion annwyl atoch i gyd.

Ein dymuniadau gorau i Dafydd a Fiona Hughes (HA) yn eu cartref newydd yn Ninbych-y-pysgod. Hefyd ein cofion at Daisy Devonald (HA) a Nancy John (HA), y naill wedi ymgartrefu yng Nghartref Gofal Gwerllwyn a'r llall yng Nghartref Gofal Croeso Pencader

Cynhaliwyd 'Steddfod Unnos yng Nghastell Aberteifi fel y digwyddiad cyntaf mewn cyfres o ddathliadau i gofnodi eisteddfod gyntaf Cymru yn 1176. Prif nodwedd yr eisteddfod gyntaf hon oedd ei bod yn cynnig dwy gadair yn wobrau – un ar gyfer y farddoniaeth orau a'r ail am y perfformiad cerddorol gorau. Er mwyn parhau â'r traddodiad yna, cafodd wyth o feirdd eu cloi yn y castell dros nos i farddoni, gan gyflwyno eu gwaith cyn 10 y bore canlynol. Y Prifardd Tudur Dylan Jones (P) oedd yn beirniadu, a Ronnie Roberts greodd y gadair o goed ywen. Gruffudd Antur oedd yn fuddugol am ei gywydd - Llinach. ]Yn hytrach na chyflwyno cadair am gerddoriaeth, rhoddwyd llwyfan i berfformiwr, sef Rhiannon O'Connor roi 'Perfformiad o'r Gadair Gerdd.



Bu Pantri Blakeman, Caerfyrddin yn dathlu 25 mlynedd ers agor eleni a da oedd gweld y rhaglen Cefn Gwlad ar S4C yn dwyn hyn o gof wrth sgwrsio â Moyra Blakeman. Ymysg y cwsmeriaid bodlon a hapus roedd Catrin Heledd a Huw Jones (P) a Lloyd a Sheila Thomas (HA).

Blwyddyn y merched oedd 2025 ym myd crefydd yng Nghymru, meedai bbc cymru fyw. Erbyn mis Tachwedd roedd merch yn allweddol yn arweinyddiaeth pob un o'r enwadau Cristnogol heblaw am yr Eglwys Gatholig. Gyda phenodi Elinor Wyn

Reynolds yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr yn yr haf, mae pob un o'r enwadau anghydffurfiol bellach o dan arweinyddiaeth merched sef Judith Morris, Nan Wyn Powell-Davies, Jenny Hurd a Melda Grantham. Dilyn y patrwm wnaeth Coleg Etholiadol yr Eglwys yng Nghymru drwy benodi Cherry Vann yn Archesgob Cymru. Cawsom gyfle unwaith eto i glywed weledigaeth Elinor ar gyfer ei swydd ar y rhaglen Bwrw Golwg ar Radio Cymru ar Sul olaf Rhagfyr. Bu hefyd ar Heno Nos Galan ar S4C yn trafod 'Geiriau 2025' gyda Jon Gower.

Gwelwyd ailddarllediad o ran o gymanfa lwyddiannus Dechrau Canu Dechrau Camol i Gofio Gwynfor ar S4C gyda Heledd ap Gwynfor (P) yn siarad.

Llongyfarchiadau gwresog i Lucy Jones (P) ar dderbyn Gradd Meistr ym Mhrifysgol Aberystwyth.

I gloi, llongyfarchiadau mawr i Olive Lloyd (P) a Mary Evans (E) sy'n dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn yn 90 oed. Eiin dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n
Gweinidog neu Alun Charles

**GAIR O WERTHFAWROGIAD**

Mae'n diolch yn fawr i Carwen Davies (E) sydd wedi ymddeol o'i chyfrifoldeb o ofalu am Rota Bwrdd Cymun Elim – swydd y mae wedi'i chyflawni gyda thrylwyredd ers blynyddoedd mawr. Diolch a phob hwyl i Nia Evans a fydd yn ei holynu.

Theatre y Lyric, Caerfyrddin

PEDAIR

Nos Iau 5 Chwefror 2026

Tocynnau: £17.50



**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Aled Walters (E)**



**Fel ffarmwr godro, dw i'n gobeithio y cawn Wanwyn sych a braf i ni allu troi'r gwartheg allan yn gynnar. Gobeithio hefyd y cawn bris llaeth teg - bod pris potel o laeth yn fwy na photel o ddŵr. Gobeithio bydd y milfeddyg yn galw am baned o de yn unig, ac nid yn danfon bil mawr! Ac yn olaf, ac yn bwysicaf, gobeithio y cawn flwyddyn yn llawn hapusrwydd a iechyd da.**

**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Carys Hopley (HA)**



**Rwy'n gobeithio y bydd 2026 yn flwyddyn llawn profiadau newydd ac atgofion da gyda fy nheulu. Rwy'n gobeithio teithio a ymweld mwy o'r byd gyda thaith i Efrog Newydd ac Ynysoedd Canarïa wedi'u trefnu yn barod. Gobeithiaf ddysgu pethau newydd a chwrdd â phobl newydd. Yn fwy na dim, rwy'n gobeithio y bydd yn flwyddyn o hapusrwydd a dweud "ie" i brofiadau newydd.**

**Fy ngobeithion ar gyfer 2026**

**Carina Sidhu (P)**



**Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod prysur o leoliadau clinigol i mi mewn ysbytai o gwmpas Lerpwl, wrth i mi gyrraedd pedwaredd flwyddyn fy nghwrs Meddygaeth. Roedd yn gyfle i mi gwrdd â phob math o bobl, boed yn weithwyr meddygol a chleifion, a gweld drosof fy hun mor brysur ond hefyd mor gymhleth yw gwaith iechyd gofal. Fy ngobaith mawr ar gyfer 2026 yw bod ein gwasanaeth iechyd yn ffynnu ac yn llwyddo i roi gofal ardderchog i bawb sydd ei angen.**

## Y DIWEDDAR SULWYN THOMAS

**Gyda syndod a siom y clywson am golli Sulwyn a fu farw'n dawel yn Ysbyty Glangwili ar 8 Rhagfyr 2025 wedi salwch byr.**

**Mae'r llu o deyrngedau sydd wedi eu talu iddo yn dyst bod Sulwyn ymhlith y newyddiadurwyr a darlledwyr mwyaf poblogaidd a llwyddiannus yng Nghymru. Bu'n llais cyfarwydd ar Radio Cymru, yn arbennig felly gyda'i 'Stondin' a hefyd yn wyneb cyfarwydd ar S4C.**

**Bu'n driw i'w ardal ar hyd ei oes, gan gychwyn nifer o fentrau newydd yn lleol ac yn ei plith Papur Llafar y Deillion a Radio Glangwili. Roedd Sulwyn yn llawn egni a brwdfrydedd ac yn fawr ei gefnoageth i waith elusennol yng Nghaerfyrddin a thu hwnt.**

**Ond i ni yma yn y Priordy, Sulwyn oedd y wên gyfeillgar wrth ddrws y capel bob bore Sul, yn ein croesawu'n gynnes i'r oedfa. Bu'n agor y capel ac yn paratoi'r pethau bychan ers blynyddoedd lawr er mwyn gwneud yn siŵr bod yr addoldy yn barod ar gyfer yr oedfa – y pethau bychan y mae cymaint ohonom yn eu cymryd yn ganiataol: gosod rhifau'r emynau ar y byrddau, gwneud yn siŵr bod gwydraid o ddŵr ffres yn pulpud ar gyfer y pregethwr, troi'r system sain ymlaen, trefnu plant i gasglu a threfnu diaconiaid i ddosbarthu'r Cymun a dosbarthu cyhoeddiadau'r Undeb. Gwasanaethodd fel Diacon ac Ymddiriedolwr ers nifer fawr o flynyddoedd, a bu'n Gadeirydd yr Ofalaeth am flynyddoedd. Bu'n allweddol yn y trafodaethau i sefydlu'r Ofalaeth newydd.**

**Magwyd Sulwyn yn Y Priordy. Roedd yn 'nabod yr eglwys yn dda, a bu ei bresenoldeb a'i gefnogaeth i bob agwedd ar fywyd yr eglwys ar hyd y blynyddoedd yn batrwm. Roedd cael ei bresenoldeb mewn cwrdd diaconiaid yn rhoi hyder i weinidog, a chan yr eglwys gyfan barch i'w farn. Oherwydd ei ddiddordeb yn y byd darlledu, bu'n gymorth mawr gyda'r weinidogaeth ddigidol dros y blynyddoedd diwethaf gan baratoi'r oedfa ddigidol ar gyfer Radio Glangwili a Phodlediad yr Ofalaeth bob wythnos. Ef hefyd oedd yn darllen proflenni Papur Priordy - Papur yr Ofalaeth bellach - bob mis.**

**Yn wir, mae'n anodd iawn meddwl am Y Priordy heb Sulwyn.**

Ond un peth sy'n sicr, fe fyddai'n awyddus ein bod yn parhau i fod yn ffyddlon a mentrus a bod gennym weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol, yn union fel yr oedd ganddo ef ei hun.

Bydd y golled ar ei ôl yn fawr iawn mewn sawl cylch ond nid y lleiaf ar yr aelwyd gyda'i deulu annwyl. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Glenys, Owain, Branwen a'i teuluoedd.

Roedd angladd Sulwyn yn gwbl breifat yn ôl ei ddymuniad clir. Daeth y teulu agos at ei gilydd i oedfa ar yr aelwyd yn 7 Mostyn Avenue fore Mawrth, 23 Rhagfyr 2025, cyn ymlwybro'n dawel fach i fynwent Tabor, ym mhentref heddychlon Llangwyrfron ble rhoddwyd Sulwyn i orffwys ar brynhawn braf a thawel o fis Rhagfyr.  Gwasanaethwyd gan ei weinidog.

Coffa da am un o'r goreuon. Gwelwn ei eisiau yn fawr.

**Beti-Wyn**

## GAIR O DDIOLCH

Dymuna Glenys, Owain a Branwen a'r teulu ddiolch yn ddiffuant iawn i aelodau'r Priordy am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn colli Sulwyn. Gwerthfawrogir eich caredigrwydd, eich cefnogaeth a'ch cyfeillgarwch yn fawr iawn. Diolch hefyd am y cyfraniadau i Lyfrau Llafar y Deillion er cof am Sulwyn.

## CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir ag Ann Thomas (P) ar golli'i phriod, Nigel, Heol Pentremeurig, mor ddisymwth. Meddyliwn am Ann yn ei galar a'i hiraeth a'r cysylltiadau teuluol i gyd.





## GWASANAETH PASG
## CARTREF PLAS Y DDERWEN

**Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2026**
**2.30**
***gyda'n*** **Gweinidog**

# Sulwyn

## (I Glenys, Owain a Branwen)

Dolur ddyfned nas credwn
fu dolur y Rhagfyr hwn,
daeth taw ar hwyl ac awen,
ac ar goll mae gair a gwên,
ar goll mae'r miri i gyd
o dewi'r bwrlwm diwyd.




Yn rhwydwaith o ddireidi,
sawl un oedd ein Sulwyn ni;
mor rhwydd o gyfarwydd fu
hyd y wlad ar deledu,
ef oedd gof tonfeddi gwâr
y radio cyn bod trydar.

Â stondin ei ddewiniaeth
yn siriol ddyddiol fe ddaeth
a rhoi sgwrs mewn gwres ac iâ,
yn gawr mewn haul ac eira,
gan ddod â'i hwyl annwyl o
yn garedig i'r radio.

I'r gwychaf lyfrau llafar
fe roes hwn yn fawr ei siâr,
â'i holl lais fe roes yn llon
lafur i radio'r cleifion;
a'i holl waith mor faith a fu
i'w ardal a'i Briordy.

Hoff o ddweud drwy'i ffydd ydoedd,
a'r un galon union oedd
o ddydd i ddydd yn ddi-au
â'r Sulwyn ar y Suliau,
ac â'i enaid di-gynnen
bu'n ffisig i godi gwên.

Ac â hwyl, yn ei galon
cariai'i ffydd fel meicroffôn,
ac ers oes rhoddai groeso'n
ddiorffwys, a'i eglwys o
yn siŵr, yn siŵr nad oes un
mistar ar Mistar Mostyn.



Drwy'r anochel dawelu
y mae un teulu'n eu tŷ,
heddiw i'r rhain sydd ar ôl
mae'r eisiau mor arhosol,
a daeth, drwy'r hiraeth, i dri
Ŵyl wahanol eleni.

Sawl un oedd ein Sulwyn ni,
un diorwel ei stori;
ond â'i lais ar hyd ei wlad
gwyddom drwy argyhoeddiad,
yn gywir, yn dragywydd,
mai dim ond un Sulwyn sydd.

**Tudur Dylan Jones**

***Cyflwynodd Dylan y gerdd hon yn ystod Plygain 2025 yn Eglwys Crist.***

## Y DIWEDDAR WYNNE JONES



**Gyda thristwch y clyswom am golli Wynne Jones a fu farw'n dawel ar ei aelwyd ar 10 Rhagfyr 2025, yn Llys Morfa, Llangynnwr yng nghwmni ei deulu.**

**Un o ardal Peniel oedd Wynne yn wreiddiol, a chanddo atgofion hyfryd o'i fagwriaeth ar fferm Fachros Isaf.**

**Treuliodd ei yrfa yn gweithio i'rGwasanaeth Sifil yn yr Adran Amaeth.**

**By'n aelod ffyddlon o gymdeithas yr eglwys yng Nghapel Heol Awst ac yn gefnogol i bob agwedd ar fywyd yr eglwys, tan i'w iechyd ddirywio.**

**Cofir am Wynne fel gŵr bonheddig a mwyn a oedd wrth ei fodd yn torri sgwrs dros baned ar yr aelwyd ac yn rhannu atogion am y dyddiau a fu. Diolch yn fawr iawn i bawb a alwodd heibio i'w weld yn ystod cyfnod ei wendid.**

**Bu Wynne yn aelod ffyddlon o Gylch Cinio'r Dynion yma yn y dref, ac roedd wrth ei fodd yn mynd ar wyliau a chanddo ddiddordeb hefyd mewn cerddoriaeth glasurol a dilyn rygbi.**

**Ond heb os, roedd ei deulu yn meddwl y byd iddo, a'i wyres Myfi, yn gannwyll llygad ei thad-cu.**

**Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Rhian, Angharad a Mike, Myfi a'r cysylltiadau teuluol i gyd gan ddiolch yn arbennig i Rhian a'r teulu am ofalu mor dyner am Wynne yn ei lesgedd.**

**Cynhaliwyd oedfa i ddiolch am ei fywyd ar 31 Rhagfyr 2025 yn Amlosgfa Llanell. Roedd y dyrfa a ddaeth ynghyd yn arwydd sicr o'r parch a fu iddo. Gwasanaethwyd gan ei weinidog.**

**A garwyd mewn bywyd, a drysorir mewn cof.**

**Beti-Wyn**

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

### IONAWR / CHWEFROR 2026

| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Huw a Rhyswen Michael<br>Elinor Wyn a Syfi Rolant |
|---|---|---|---|---|---|

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 11 | Phil Hopley a Nigel George | Chwefror 8 | Rhian Jones a Helen Jones |
| Ionawr 25 | Phil Hopley a Nigel George | Chwefror 22 | Rhian Jones a Helen Jones |

## CAPEL ELIM

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 4 | Nia Evans | Chwefror | 1 | Alison Evans |
| Ionawr | 18 | Nia Evans | Chwefror | 22 | Laura Welling |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | |
|---|---|---|
| Ionawr | 18 | Nia Evans |
| Chwefror | 1 | Amy Evans |

## PRIORDY

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ionawr | | Chwefror | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alun Charles | Adrian Evans | Gwynfor Davies | Philip Jones |

### PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 4 | Bore | Alison Parsons a Ffion Vickridge |
| Chwefror | 1 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |

| BLODAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 4 | Alison Parsons | Chwefror | 1 | Jill Edwards |
| | 11 | | | 8 | |
| | 18 | Jayne Jones | | 15 | Glenys Thomas |
| | 25 | | | 22 | |

| DARLLENWYR | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 4 | Catrin Heledd | Chwefror | 1 | Carys Morgans |
| | 11 | Oedfa Deulu | | 8 | Philip Jones |
| | 18 | Elis Jones<br>(E – Undebol)_ | | 15 | Alison Parsons |
| | 25 | Myfanwy Jones | | 22 | Syfi Rolant |

| CYHOEDDWYR | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | Carys Morgans | Chwefror | Meleri Llwyd O'Leary |

| CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Bore Mercher<br>11 Chwefror 2026 | 11.00 | Y Capel |
| | | | |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher<br>11 Chwefror 2026 | 2.00 | Y Festri |
| | | | |
| Y PRIORDY | Nos Lun<br>9 Chwefror 2026 | 7.00 | Y Festri |

**CYFARFOD BLYNYDDOL DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**

**Nos Lun 23 Chwefror 2026 am 7 yn Festri Cana**

# SULIADUR IONAWR / CHWEFROR 2026



| Dyddiad | 10 y bore | 11.30 | 3.00 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Ionawr 4** | Priordy (+ C a B) ©<br>Gweinidog | Elim (+ HA) ©<br>Gweinidog | |
| **Ionawr 11** | Priordy - Oedfa Deulu<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E) ©<br>Gweinidog |
| **Ionawr 18** | Elim (i E, HA & P)<br>Parchg Aled Edwards | | |
| **Ionawr 25** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog |
| | | | |
| **Chwefror 1** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim (+HA) ©<br>Gweinidog | |
| **Chwefror 8** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E) ©<br>Gweinidog |
| **Chwefror 15** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | |
| **Chwefror 22** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL - IONAWR 2026



**Elim**
**4 Ionawr – Dim Ysgol Sul**
**11 Ionawr – Ysgol Sul**
**18 Ionawr – Ysgol Sul**
**25 Ionawr – Ysgol Sul**

**Y Priordy**
**4 Ionawr – Dim Ysgol Sul**
**11 Ionawr – Oedfa Deulu**
**18 Ionawr – Ysgol Sul**
**25 Ionawr – Ysgol Sul**



## ATEBION Y CWIS MIS IONAWR

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | ymhell | 6 | eiriau |
| 2 | anrhydedd | 7 | rhwystr |
| 3 | brywes | 8 | trai |
| 4 | bo | 9 | arno |
| 5 | euog | 10 | doethineb |



### DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tomos Morgans ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.

### TORCH YR ADFENT

Mae'n diolch yn fawr i Gill Owens (P) a Nia Evans (E a HA) am baratoi torchau mor arbennig a fu'n gaffaeliad i'n gwasanaethau. Ardderchog yn wir!



### CASGLIAD CEGIN HEDYN

Casglwyd £200 gan y Priordy i gynorthwyo Canolfan Heol Awst a Chegin Hedyn i baratoi Cinio Nadolio gar gyfer anffodusion ein tref. Diolch i Adrian Evans, Trysorydd,am gadw'r cyfrifon. Derbyniwyd llythyr o ddiolch a gwerthfawrogiad gan Dianne Stephenson, Trysorydd y Ganolfan.

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

## Y GYMDEITHAS

## Dydd Mawrth 20 Ionawr 2026

## Festri Capel Heol Awst - 2.00yp

Ein Gwestai

## Brian Jones

Castell Howell

Croeso cynnes i bawb



WYTHNOS WEDDI AM UNDOD CRISTNOGOL 2026
WEEK OF PRAYER FOR CHRISTIAN UNITY 2026

## EGLWYSI YNGHYD 'AM BANED'

YNG NGHAERFYRDDIN

## CHURCHES 'COFFEE' TOGETHER

IN CARMARTHEN

Mercher, 21 Ionawr 2026
Wednesday, 21 January 2026
10.30-11.30

CAFFI BYDDIN YR IACHAWDWRIAETH, HEOL AWST



SALVATION ARMY COFFEE SHOP, LAMMAS STREET